Adolygiad Diogelu Unedig Sengl

Single Unified Safeguarding Review

# BWLETIN MISOL

**CHWEFROR 2025**

**Croeso** i ail rifyn y Bwletin Adolygiadau Diogelu Unedig Sengl. Diolch i bawb a gynigiodd adborth a syniadau yn dilyn rhifyn y mis diwethaf. Gofynnwn ichi barhau i rannu eich barn, eich sylwadau a'ch syniadau fel y gallwn sicrhau bod y Bwletin mor berthnasol a defnyddiol â phosibl.


**ADUSau a gomisiynwyd**

Mae'r Hwb Cydgysylltu wedi derbyn 4 hysbysiad ADUS y mis hwn, gan ddod â chyfanswm yr ADUSau sydd ar y gweill i 11.

**ADUSau a gyhoeddwyd**

Cafodd ADUS peilot sy'n cyfuno lladdiadau iechyd meddwl a lladdiadau domestig ei gyhoeddi gan Fwrdd Diogelu Caerdydd a'r Fro ym mis Chwefror 2025.

## Newyddion




Mae ffilm esboniadol fer wedi'i chreu ar yr Adolygiad Diogelu Unedig Sengl (ADUS). Dylech gynnwys hon yn ôl yr angen mewn cyflwyniadau a hyfforddiant. Gallwch ddefnyddio hon hefyd â thestun adolygiad neu â'r teuluoedd i roi trosolwg o broses yr ADUS.

# Nodwch y dyddiad!

Bydd y Digwyddiad Lledaenu ADUS cyntaf yn cael ei gynnal yn Llandudno ar 20 Mai 2025. Wrth inni aros am ein hadroddiadau ADUS cyntaf, bydd y digwyddiad hwn yn canolbwyntio yn hytrach ar ddysgu ynghylch proses yr ADUS. Bydd hyn yn cynnwys ysgrifennu argymhellion, ymgysylltu â'r testunau, y teuluoedd a'r cyflawnwyr a chymorth ar gyfer yr Adolygwyr a'r Cadeiryddion. Bydd agenda a dolen archebu Eventbrite yn cael eu cylchredeg yn fuan

# Arferion Da

Mae'r arferion da canlynol wedi'u rhannu â'r Hwb Cydgysylltu gan Gadeirydd/Adolygydd profiadol. *Yn ystod yr Adolygiad, gwnaeth y Cadeirydd gyfarfod â'r teulu ar sawl achlysur. Yn dilyn pob cyfarfod, ysgrifennodd y Cadeirydd lythyr at y teulu a oedd yn amlinellu'r hyn oedd wedi'i drafod yn ystod y cyfarfod hwnnw a chadarnhau'r camau nesaf. Yna, cafodd y llythyrau hyn eu hanfon at y teulu gan yr Uned Busnes. Roedd hyn yn golygu bod disgwyliadau'r teulu yn cael eu rheoli drwy gydol y broses ac roedd ganddynt gofnod ysgrifenedig i gyfeirio ato rhag ofn iddynt anghofio unrhyw beth a drafodwyd yn ystod y cyfarfodydd. Noder, fodd bynnag: efallai na fydd yr hyn sy'n gweithio i un teulu yn gweithio i un arall, dylid teilwra eich dull o fynd ati i gyd-fynd ag anghenion y teulu.*

**Hoffem glywed gennych chi!**
Rhannwch unrhyw arferion da a nodwyd yn rhan o ADUS â Hwb Cydgysylltu ADUS drwy anfon e-bost i ADUSCymru@llyw.cymru

# Hyfforddiant

Mae Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru wedi bod yn darparu sesiynau hyfforddi i Aelodau Panel ac Adolygwyr/Cadeiryddion ADUS yn y rhanbarth. Rhwng mis Medi a mis Tachwedd 2024, cafodd 38 o aelodau panel a 31 o Adolygwyr a Chadeiryddion hyfforddiant gan y bwrdd!

# Rhwydwaith Cymorth yr Adolygwyr a'r Cadeiryddion

Mae wedi dod i'r amlwg ar sail yr adborth o'r sesiynau hyfforddiant ADUS fod awydd am gael cymorth parhaus ar gyfer Adolygwyr a Chadeiryddion. Felly, bydd yr Hwb Cydgysylltu yn cynnal sesiynau cymorth chwarterol ar gyfer Adolygwyr a Chadeiryddion. Bwriedir cynnal y sesiwn gyntaf (ar-lein) ar 27 Mawrth. Bydd y sesiwn hon yn canolbwyntio ar ymgysylltu â thestunau adolygiadau a theuluoedd. Bydd gwahoddiad i bawb ar y rhestr a gymeradwywyd yn dilyn yn fuan. **Cysylltwch â ni os ydych yn Adolygydd a/neu'n Gadeirydd profiadol a byddai diddordeb gennych mewn cymryd rhan mewn sesiwn holi ac ateb yn ystod un o'r sesiynau cymorth hyn.**